# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2484A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich Cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen rhoi gwybod ichi amdanynt cyn eu cymeradwyo.


| | |
|---|---|
| Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni | 4 |
| Barn archwilio arfaethedig | 5 |
| Materion arwyddocaol sy’n codi o’r archwiliad | 6 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol | 8 |
| Atodiad 2 – Adroddiad Archwilio Arfaethedig | 11 |
| Atodiad 3– Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed | 14 |

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

## Cyflwyniad

1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2020-21 yn yr adroddiad hwn.

2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) a'i thîm.

3 Nid yw archwilwyr byth yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai beri fel arall i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain.

4 Pennwyd lefel perthnasedd o £936,000 ar gyfer archwiliad eleni o'r prif ddatganiadau ariannol a lefel perthnasedd o £184,000 ar gyfer y Gronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân.

5 Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i'r darllenydd ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:

- Datgeliadau Partïon Cysylltiedig £10,000
- Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion £1,000

6 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; rydym yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chi a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni.

## Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

7 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar bob agwedd ar ein cymdeithas ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith eich bod yn paratoi cyfrifon ac mae'n glod sylweddol i ymrwymiad eich tîm cyfrifon eich bod wedi llwyddo i wneud hynny eleni yn wyneb yr heriau a achosir gan y pandemig hwn. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i broffesiynoldeb y tîm o ran y modd y gwnaethant ein cynorthwyo ni i gwblhau ein harchwiliad dan amgylchiadau mor anodd.

8 Nid yw'n syndod bod y pandemig wedi effeithio ar ein harchwiliad ac rydym yn crynhoi'r prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ac eithrio lle'r ydym yn gwneud argymhellion yn benodol, darperir y manylder yn **Arddangosyn 1** er gwybodaeth yn unig i'ch helpu chi i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar broses archwilio eleni.

**Arddangosyn 1 – effaith COVID-19 ar archwiliad eleni**

| | |
|---|---|
| **Amserlen** | Darparodd swyddogion y cyfrifon drafft ar ein cyfer ar 28 Mai 2021 fel a gynlluniwyd. Mae hyn yn gyson â llynedd ac yn cydymffurfio â therfynau amser rheoleiddiol. Rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi erbyn dechrau mis Awst 2021. |
| **Llofnodion electronig** | O ystyried y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol ar hyn o bryd, bydd yn anodd llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar ffurf copi caled eto eleni. Byddwn yn derbyn llofnodion electronig gennych. |
| **Dull o gynnal yr archwiliad a chael tystiolaeth archwilio** | Oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol, mae Archwilio Cymru a'r mwyafrif o staff yr Awdurdod yn gweithio o bell ar hyn o bryd. O ganlyniad, fe fabwysiadom ni ffyrdd o weithio o bell, gan adeiladu ar ein profiad y llynedd, trwy:<br>• diweddaru ein gwaith archwilio y gellir ei gyflawni er mwyn egluro gofynion papur gwaith;<br>• cynnal cyfarfodydd Microsoft Teams wythnosol gyda swyddogion trwy gydol yr archwiliad i drafod cynnydd a materion a oedd yn dod i'r amlwg;<br>• defnyddio porth diogel ar gyfer trosglwyddo ffeiliau o bell i rannu gwybodaeth yn ddiogel; a<br>• trefnu mynediad o bell i systemau ariannol |

9 Byddwn yn parhau i adolygu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu ar gyfer ein proses archwilio o bandemig COVID-19 a pha un a oes arferion arloesol y gallem eu mabwysiadu yn y dyfodol i wella'r broses honno.

## Barn archwilio arfaethedig

10 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.

11 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.

12 Mae'r Llythyrau Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhadau y mae'n ofynnol i ni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.

13 Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

# Materion arwyddocaol sy’n codi o’r archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

14 Mae Arddangosyn 2 yn nodi'r camddatganiadau a nodwyd gennym yn y cyfrifon, sydd wedi'u trafod gyda'r rheolwyr ond sydd heb eu corddi o hyd. Gofynnwn i'r rhain gael eu cywiro. Os penderfynwch beidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi'r rhesymau ysgrifenedig dros beidio â'u cywiro.

**Arddangosyn 2 – camddatganiadau heb eu corddi**

| | |
|---|---|
| **Mae croniad yswiriant o £61,612 wedi'i ddosbarthu'n anghywir fel credydwr** | Roedd nodyn 'Credydwyr' yn cynnwys croniad yswiriant a ddygwyd ymlaen o £61,612 mewn camgymeriad. Dylai'r balans fod wedi'i wrthdroi a'i eithrio o ddatganiadau ariannol 2020-21 gan fod y symiau perthnasol y gellir eu priodoli i'r croniad eisoes wedi'u cyfrif yn Nodyn 18 'Darpariaethau' a'r gronfa 'Atebolrwydd Cyfreithiol' a glustnodwyd yn Nodyn 19. Dywedodd yr Awdurdod wrthym nad yw'n bwriadu diwygio ar gyfer y mater yn 2020-21 ond bydd yn sicrhau ei fod yn cael ei wrthdroi'n gywir o fewn datganiadau ariannol 2021-22. |
| **Taliad cyfandaliad sengl Diffyg Pensiwn** | Gwnaeth yr Awdurdod daliad diffyg pensiynau cyfandaliad o £958,490 i Gronfa Bensiwn Clwyd ar gyfer y tair blynedd ariannol rhwng 2020-21 a 2022-23 y mae blwyddyn ohonynt wedi'i debydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r taliadau dwy flynedd sy'n weddill wedi'u cynnwys fel rhagdaliad tymor byr a thymor hir sy'n dod i gyfanswm o £650,431 yn ymwneud â 2021-22 a 2022-23 yn Nodyn 15 'Dyledwyr'.<br>Mae'r rhagdaliad hefyd wedi'i ystyried ym mhrisiad actiwaraidd Budd-daliadau Ymddeol IAS 19 ac fe'i cynhwyswyd ym prisiad asedau'r gronfa bensiwn yn Nodyn 33 'Trafodion sy'n ymwneud â Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth'. O ganlyniad, mae'r driniaeth fel rhag-daliad yn arwain at gyfrif yr ased ddwywaith yn nisgrantiadau ariannol yr Awdurdod.<br>Nodir y gofynion statudol ar gyfer y cynllun pensiwn llywodraeth leol yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (Rheoliadau 2013). Nodir gofynion cyfrifyddu yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (Rheoliadau 2003). Mae rheoliad 24 o Reoliadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod godi i gyfrif refeniw y swm sy'n hafal i'r taliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn. Dylid debydu swm llawn y taliad i'r Gronfa Gyffredinol yn 2020-21 drwy'r Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn gyda chredyd cyfatebol i'r gronfa bensiwn wrth gefn. |

## Camddatganiadau a gywirwyd

15 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym ni'n credu y dylid dwyn y rhain i'ch sylw a chânt eu nodi gydag esboniadau yn **Atodiad 3**.

## Materion Arwyddocaol eraill sy'n codi o'r archwiliad

16 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn adrodd am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi i chi. Mae materion yn codi yr ydym yn adrodd i chi.

17 Er ein bod yn cydnabod bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran gwella ansawdd ei ddatganiadau ariannol mewn blynyddoedd blaenorol a bu'n rhaid iddo ymateb i'r heriau a achosir gan bandemig Covid-19 ar drefniadau cau'r Awdurdod, roeddem yn dal i nodi nifer fawr o wallau ac anghysondebau yn y datganiadau ariannol a oedd yn effeithio ar gyflawni a phrydlondeb ein gwaith archwilio. Dylai'r Awdurdod ddatblygu ei drefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer adolygu'r datganiadau ariannol cyn iddynt gael eu cyflwyno i'w harchwilio er mwyn lleihau nifer y gwallau a'r anghysondebau.

18 Daeth anawsterau hefyd i brofi ailbrisiad pum mlynedd Tir ac Adeiladu'r Awdurdod gan arwain at ein gwaith yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Roedd prisiadau a ddarparwyd gan y prisiwr allanol i gefnogi'r cofnodion yn Nodyn 11 'Eiddo, Peiriannau ac Offer' yn cynnwys nifer o wallau fel a ganlyn:

- roedd y data prisio ar gyfer yr adeiladau yng Ngorsaf Dân y Fflint yn anghywir yn seiliedig ar ddyblygu prisiad adeilad Gorsaf Dân Glannau Dyfrdwy;
- cafodd elfen o orsaf Dân Bangor ei phrisio'n anghywir fel adeilad hyfforddi pan fydd yn Orsaf Ambiwlans (a gedwir o dan brydles weithredol gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru); a
- baysroedd gwallau trosi ar gyfer y gost pob metr sgwâr wedi ei gynnwys ar gyfer 22 o faeau garej nad oeddent yn cydymffurfio â chanllawiau RICS.

19 Dylai'r Awdurdod geisio cryfhau trefniadau sicrhau ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan y prisier wrth gynnal yr ymarfer prisio 5 mlynedd nesaf ar eu tir a'u adeiladau.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Pennawd llythyr yr Awdurdod Tân ac Achub

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

18 Hydref 2021

### Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2020-21

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u cywirdeb a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

### Sylwadau'r rheolwyr

#### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- Baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â'r rhain.
- Dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- Mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a

  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- Canlyniadau ein hasesiad ni o’r risg y gallai’r datganiadau ariannol fod wedi’u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni’n ymwybodol ohono ac sy’n effeithio ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac sy’n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai’r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy’n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi’r datganiadau ariannol.
- Gwybodaeth am bwy yw’r holl bartïon cysylltiedig a’r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae’r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe’u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae tybiaethau arwyddocaol a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a fesurwyd yn ôl gwerth teg, yn rhesymol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu’n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae’r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi’r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â’r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol ac ar y cyd, i’r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd.

Mae dau gamddatganiad heb eu corddi yn y datganiadau ariannol sy'n ymwneud â thaliad cyfandaliad sengl Diffyg Pensiwn a cholli dosbarthiad yswiriant sy'n cronni fel credydwr. Penderfynwyd peidio ag addasu ar gyfer y gwallau oherwydd yr effaith rhwygo drwy'r datganiadau ariannol a fyddai'n gofyn am lawer o newidiadau. Nid yw'r

camddatganiadau'n berthnasol i'r datganiadau ariannol.Sylwadau gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Yr ydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Yr ydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Panel Gweithredol ar 18 Hydref 2021.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Yr ydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| | |
| Ken Finch | Y Cynghorydd Peter Lewis |
| Trysorydd | Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub |
| 18 Hydref 2021 | 18 Hydref 2021 |

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilydd annibynnol arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

### Barn am y datganiadau ariannol

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2021 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2021 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd,

fwrw amheuaeth sylweddol ar allu’r Awdurdod i barhau i fabwysiadu’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau’r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o’r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio’r datganiadau ariannol a’m hadroddiad i fel archwilydd arnynt. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd wedi’i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â’r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gefais wrth i mi gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o’r fath neu wybodaeth berthnasol o’r fath sy’n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae’n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi’i wneud, os wyf yn dod i’r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi’i chamddatgan yn berthnasol, mae’n ofynnol i mi nodi’r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i’w nodi yn hyn o beth.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac mae’r Adroddiad Naratif wedi’i baratoi yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21;
- Mae’r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi’i baratoi yn unol â’r canllawiau.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth am yr Awdurdod a’i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol, neu ni chafwyd ffurflenni sy’n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw’r datganiadau ariannol yn gyson â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau’r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 4, y swyddog cyllid cyfrifol sy’n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy’n rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae’r swyddog cyllid cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu’r Awdurdod i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

### Cyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | 24 Heol y Gadeirlan |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| Hydref 2021 | CF11 9LJ |

# Atodiad 3

## Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed

Yn ystod ein harchwiliad canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i’ch sylw yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i’ch cyfrifoldebau chi dros y broses adrodd ariannol.

**Arddangosyn 3: crynodeb o gywiriadau a wnaed**

| Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro | Effaith |
|---|---|---|
| **Nodyn 11 'Eiddo, Peiriannau ac Offer ac Asedau Anniriaethol’** Diwygiwyd ‘Tir ac Adeiladau’ fel a ganlyn:<br>• Mae llinellau o'r enw 'Dileu dibrisiant ar 1 Ebrill 2020' o £3,947,000 wedi'u dileu ac mae'r gwerth wedi'i rannu rhwng Ailbrisiadau a gydnabyddir yn y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn neu a gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau.<br>• Gwerth Llyfr Gros wedi'i ddiwygio fel a ganlyn:<br>  ○ Ailbrisio cynnydd/(gostyngiadau) a gydnabyddir yn y Gronfa Ailbrisio a ddiwygiwyd o £(343,000) i £(1,362,000).<br>  ○ Ailbrisio cynnydd/(gostyngiadau) a gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau a ddiwygiwyd o £(2,211,000) i £(5,336,000).<br>• Dibrisiant cronedig wedi'i ddiwygio fel a ganlyn: | Diwygiwyd y nodyn i ddangos y symudiadau gros i'r Surplus (diffyg) ar Ddarparu Gwasanaethau a'r Gronfa Ailbrisio o fewn adrannau cost a dibrisiant cronedig y nodyn.<br><br>Cododd materion hefyd o ailbrisio Tir ac Adeiladau:<br><br>• Gwerthoedd tir ac adeilad gorsaf dân Glannau Dyfrdwy a'r Fflint wrth i'r gwerthwr ddyblygu prisiad gorsaf Dân y Fflint yn anghywir. Hefyd, cymhwysodd yr Awdurdod brisiad tir y Fflint i Lannau Dyfrdwy ac i'r gwrthwyneb.<br>• Roedd y gwerthwr wedi gwerthfawrogi rhan o Orsaf Dân Bangor yn anghywir fel 'adeilad hyfforddi' yn hytrach nag fel 'gorsaf ambiwlans' a gedwir o dan brydles weithredol gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.<br>• Roedd y gwerthwr yn cymhwyso gwallau trosi o fewn cyfrifiadau'r gost | Cofnodir yr effaith ar Note11 o fewn y golofn gyntaf.<br>Mae'r addasiadau hyn hefyd wedi effeithio ar Ddim yn 20 'Cronfeydd Wrth Gefn Na ellir eu defnyddio' ar gyfer y Gronfa Ailbrisio a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf fel a ganlyn:<br><br>Diwygiadau i'r Gronfa Ailbrisio wrth Gefn:<br>• Diwygio'r broses o ailbrisio asedau nas codwyd ar y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau o £(344,000) i £(678,000).<br>• Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant cost hanesyddol a ddiwygiwyd o £(126,000) i £(124,000).<br><br>Diwygio'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf:<br>• Addasiadau sy'n ymwneud ag Ailbrisio Asedau a ddiwygiwyd o £(2,211,000) i £(2,473,000).<br>• Ffioedd am ddibrisiant a nam ar asedau ansyledol a ddiwygiwyd o £(2,358,000) i £(2.353.000).<br>Mae'r addasiadau wedi effeithio ar y Datganiad Symud |

| | | |
|---|---|---|
| ○ Dibrisiant/Amorteiddiad ar gyfer y flwyddyn a ddiwygiwyd o £(614,000) i £(607,000).<br>○ Newidiodd dibrisiant a ysgrifennwyd at y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn i £1,084,000 yn dilyn y gwerth hwn a oedd gynt yn cael ei gynnwys yn y 'dibrisiant dileu' o £3,947,000.<br>○ Newidiodd dibrisiant a ysgrifennwyd at y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn i £1,084,000 yn dilyn y gwerth hwn a oedd gynt yn cael ei gynnwys wrth ddatgelu 'dileu dibrisiant' £ £3,947,000<br>Effaith gwerth y Llyfr Net yw ailbrisiad cyffredinol o £590,000. | fesul mesurydd sgwâr a gymhwyswyd i 22 o faeau garej nad oeddent yn cydymffurfio â chanllawiau RICS. Arweiniodd hyn at orbwysleisio asedau. | mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn benodol Nodyn 6 sy'n manylu ar yr 'Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau'.<br>Gwnaed y diwygiadau canlynol hefyd:<br>• Colledion/enillion ailbrisio ar Eiddo, Peiriannau ac Offer wedi'u diwygio o £2,211,000 i £2,473,000.<br>• Taliadau am ddibrisiant a nam ar asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiwygiwyd o £2,484,000 i £2,477,000. |
| **Diwygiwyd Nodyn 12 'Offerynnau Ariannol – Categorïau Offerynnau Ariannol – Cyfredol ar 31 Mawrth 2020 – Dyledwyr – Benthyciadau a symiau derbyniadwy'** o £3,528,000 i £3,448,000. | Cafodd ailddatganiad dyledwyr y flwyddyn flaenorol ei gamddatgan ac nid oedd yn cytuno â Nodyn 15 'Dyledwyr' gan ei fod yn cynnwys dyledwyr hirdymor o £80,000 mewn camgymeriad gan fod y rhain wedi'u cynnwys o fewn dyledwyr presennol hefyd. | Ni chafodd y gwelliant unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol.<br>**Datgelu cyflwyniad yn unig.** |
| **Nodyn 15 Diwygiwyd ail-ddatganiad 'Dyledwyr'** ar gyfer 2019-20:<br>• 'Masnach' o £2,714,000 i £2,794,000.<br>'Rhagdaliad' o £374,000 i £294,000. | Cafodd ailddatganiad dyledwyr y flwyddyn flaenorol ei gamddatgan wrth i'r £80,000 sy'n ymwneud â'r Taliad Hirdymor ymlaen llaw gael ei ddidynnu gan ddyledwyr Masnach yn hytrach na rhagdaliad mewn camgymeriad. | Ni chafodd y gwelliant unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol.<br>**Datgelu cyflwyniad yn unig.** |

| | | |
|---|---|---|
| **Diwygiwyd Nodyn 17 'Credydwyr':**<br>• 'Arall' o £945,000 i £1,302,000.<br>• 'Masnach' o £4,001,000 i £1,846,000. | Nodwyd dau fater sydd fel a ganlyn:<br>• Nododd yr Awdurdod golli dosbarthiad o £357,000 rhwng masnach a chredydwyr eraill.<br>• Roedd yr Awdurdod yn cynnwys credydwyr asiantaeth gyda dyledwyr cyfatebol o fewn 'Credydwyr Masnach' o £1,798,000 mewn camgymeriad nad yw'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21. | Ni chafodd yr addasiad dosbarthu rhwng masnach ac eraill o £357,000 unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol.<br><br>Roedd yr addasiad cyfatebol ar gyfer addasiadau asiantaeth yn cael ei gynnwys yn anghywir o fewn credydwyr Nodyn 17 yn addasiad i ddyledwyr Nodyn 15 o ostyngiad o £1,798,000 i ddyledwyr masnach Tymor Byr. |
| **Polisi Cyfrifo 18 Diwygiwyd 'stociau'** i adlewyrchu rhestri ar y gost ddiweddaraf. | Nid oedd y polisi cyfrifyddu ar gyfer prisio stoc ar sail Ddiwethaf yn First Out (LIFO) yn adlewyrchu'r polisi cyfrifyddu a ddefnyddiwyd ar gyfer prisio rhestri. | Ni chafodd y gwelliant unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol.<br>**Datgelu cyflwyniad yn unig.** |
| **Nodyn 20 'Cronfeydd Wrth Gefn Na ellir eu defnyddio – Cyfrif Addasu Cyfalaf'** wedi'i ddiwygio fel a ganlyn:<br>• Dilëwyd datgelu 'Derecognition other' o £253,000 gan nad yw'r gwerth hwn wedi'i roi i'r gronfa wrth gefn.<br>• Mae tabl wedi'i ddiwygio i gynnwys datgeliad llinell ar wahân ar gyfer Symudiadau Ailbrisio. | Nid yw datgelu £253,000 fel cofnod o fewn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn unol â'r driniaeth gyfrifyddu a ddefnyddiwyd.<br>Nododd y tabl symudiadau Ailbrisio yn anghywir fel namau. | Ni chafodd y gwelliant unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol.<br>**Datgelu cyflwyniad yn unig.** |
| **Diwygiwyd Nodyn 23 'Datganiad Llif Arian Parod – Gweithgareddau Ariannu':**<br>• 'Derbyniadau arian parod o fenthyca tymor byr a thymor hir' o £(8,167,000) i £(8,077,000). | Roedd derbyniadau arian parod ac ad-daliadau benthyca tymor byr a thymor hir yn anghywir yn cynnwys croniadau nad ydynt yn symudiadau arian parod ac a oedd eisoes wedi'u cyfrif yn | Ni chafodd y gwelliant unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol.<br>**Datgelu cyflwyniad yn unig.** |

| | | |
|---|---|---|
| • 'Ad-daliadau benthyca tymor byr a thymor hir' o £13,006,000 i £12,957,000. | Nodyn 21 'Datganiad Llif Arian Parod - Gweithgareddau Gweithredu' fel rhan o'r 'Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Credydwyr'. | |
| **Nodyn 25 diwygiwyd y cyfansymiau ar gyfer colofn 'Taliadau Uwch Swyddogion' – Cyfraniadau Pensiwn'** er mwyn i swyddogion gynnwys dosrannu'r cyfandaliad taliad diffyg sy'n daladwy i'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol yn seiliedig ar ganran o gyfanswm y tâl pensiynadwy. | Senior Officers Pensions deficit payment contributions excluded the pension deficit lump sum paid in year in respect of the two future financial years which was attributable to Senior Officers. This is contrary to the requirements of the Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom 2020-21, The Local Government Pension Scheme Regulations 2013 and the Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014. | Ni chafodd y gwelliant unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol.<br>**Datgelu cyflwyniad yn unig.** |
| **Nodyn 25 Diwygiwyd Taliadau Swyddogion – Taliadau I Uwch Swyddogion 2020-21 – Cyflog Rhwn £60,000 a £150,000 - Budd Mewn Nwyddau'** ar gyfer y Prif Swyddog Cynorthwyol Dros Dro o £11,056 i £12,531. | Cafodd y swm a ddatgelwyd ei danddatgan gan fod cyfrifiad amcangyfrifedig wedi'i ddefnyddio cyn cyflwyno'r ffurflen P11D i CThEM. Roedd y ffurflen P11D yn dangos gwerth uwch na'r cyfrifiad amcangyfrifedig. | Ni chafodd y gwelliant unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol.<br>**Datgelu cyflwyniad yn unig.** |
| **Diwygiwyd Nodyn 28 'Gwasanaethau'r Asiantaeth':**<br>• 'Dimensiynau Newydd/Cydnerthedd Cymru Gyfan' o £3,254,000 i £2,845,000.<br>• 'Phoenix' o £236,000 i £206,000. | Cynhwyswyd elfen o gostau asiantaeth 'Dimensiynau Newydd/Cydnerthedd Cymru Gyfan' 2019-20 yng nghydbwysedd 2019-20 a 2020-21 mewn camgymeriad. | Gostyngodd yr addasiadau gyfanswm cyllid yr asiantaeth ar gyfer 2020-21 o £3,674,000 i £3,235,000. Ni chafodd y gwelliant unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Nodyn 29 Diwygiwyd 'Partïon Cysylltiedig' i gynnwys trafodion gyda 'Dangerpoint':**<br>• 2019-20 £27,966.<br>• 2020-21 £36,514. | Datganodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol fuddiant fel ymddiriedolwr Dangerpoint a hepgorwyd o Nodyn 29. | Ni chafodd y gwelliant unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol.<br>**Datgelu cyflwyniad yn unig.** |
| **Nodyn 31 Diwygiwyd gwerth cario 'Prydlesi – Prydlesi Cyllid' o £4,910,000 i £4,586,000.** | Roedd gwerth cario net y brydles gyllid ar gyfer Gorsaf Dân Wrecsam yn cynnwys gwerth tir yr eiddo o £223,000 yn anghywir. | Gwnaed addasiadau cyfatebol i Nodyn 11 'Eiddo, Peiriannau ac Offer ac Asedau Anniriaethol 'Tir ac Adeiladau i ddileu gwerth tir cyfalafol £ £223,000 a lleihau'r Gronfa Ailbrisio £223,000 o fewn Nodyn 20 Cronfeydd Wrth Gefn Na ellir eu defnyddio. |
| **Nodyn 33 Diwygiwyd tabl 'Trafodion sy'n ymwneud â Budd-daliadau ôl-gyflogaeth a gydnabyddir yn y tabl cyfrifon – Heb ei ariannu – Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn':**<br>Diwygiwyd gwrthdroi'r taliadau net a wnaed i'r diffyg pf dros ben ar y Ddarpariaeth ar gyfer Budd-daliadau ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod' o £(7,258,000) i £(15,130,000). | Nid oedd gwrthdroi'r taliadau net a wnaed i'r gwarged neu'r diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn cytuno â gweddill y nodyn datgelu a'r driniaeth gyfrifyddu a ddefnyddiwyd. | Ni chafodd y gwelliant unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol.<br>**Datgelu cyflwyniad yn unig.** |
| **Diweddarwyd Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân** fel a ganlyn:<br>• 'Cyfraniadau a dderbyniadwy: Tâl Afiechyd y Cyflogwr' o £0 i £152,000.<br>• 'Buddion yn daladwy: Taliadau pensiwn' o £7,546,000 i £7,698,000. | Roedd cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn rwydo oddi ar daliadau afiechyd y cyflogwyr a ariannwyd drwy refeniw o fewn y buddion sy'n daladwy drwy daliadau pensiwn a wnaed. | Ni chafodd y diwygiadau i Gyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol.<br>**Datgelu cyflwyniad yn unig.** |
| Diweddarwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i gynnwys materion a godwyd yn | Er mwyn sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn bodloni'n llawn y | Ni chafodd y diwygiadau i'r Datganiadau Llywodraethu |

| | | |
|---|---|---|
| ein hadroddiadau archwilio perfformiad ar:<br>• Adolygiad o Gydnerthedd Corfforaethol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021.<br>• Adolygiad o Gyfranogiad a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020. | gofynion, roedd 'Sicrhau Llywodraethu Da mewn Fframwaith Llywodraeth Leol'. | Blynyddol unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol.<br>**Datgelu cyflwyniad yn unig.** |